

# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Trefnolion.** |
| Adnoddau: | • Llun o blant yn rhedeg ras – *gweler y ddogfen 'Trefnolion – lluniau'.*<br>• Set o 10 gwrthrych, e.e ffrwythau, tedis, ceir ayyb.<br>• Cardiau fflach trefnolion o 1 i 10.<br>• Cardiau fflach ennill/colli ras – *gweler y ddogfen 'Trefnolion – lluniau'.*<br><br>**<u>Adnodd digidol:</u>**<br>Gweler y ddogfen *'Trefnolion – cyflwyniad'*. |
| Camau: | **<u>Cam 1: Cyflwyniad</u>**<br>Dangos llun o 10 plentyn yn rhedeg ras - *gweler y ddogfen 'Trefnolion – lluniau'.*<br>Trafod beth mae'r dysgwyr yn ei weld yn y llun.<br>Trafod y ras yn benodol.<br>Pwy sydd ar y blaen/yn gyntaf? Trafod pob safle/trefnolyn a'u rhoi mewn brawddegau llafar,<br>e.e. Mae rhif un yn **gyntaf,** mae rhif dau yn **ail** ayyb<br><br>**<u>Cam 2: Gweithgaredd ar y sgrin</u>**<br>Defnyddio'r adnodd digidol i baru'r trefnolyn gyda'r safle cywir ar y sgrin, gan annog y dysgwyr i ddweud y frawddeg lafar wrth gyflawni'r gweithgaredd - *gweler y ddogfen 'Trefnolion - cyflwyniad'*.<br><br>**<u>Cam 3: Gweithgaredd symud</u>**<br>Rhoi deg dysgwr mewn rhes ym mlaen y dosbarth.<br>Gofyn: 'Pwy sydd yn ________ yn y rhes?' 'Symudwch _____ i fod yn drydydd' ayyb<br><br>**<u>Cam 4: Gweithgareddau pellach</u>**<br>• Torri a gludo'r trefnolion a'u paru gyda'r rhifau yn y llun.<br>• Gosod gwrthrychau fel tedis/ceir mewn rhes a'u labeli o'r cyntaf i'r degfed, e.e. gellir defnyddio cardiau fflach trefnolion. |
| Cwestiynu: | • Beth sy'n digwydd yn y llun?<br>• Pwy sydd yn y llun?<br>• Ydych chi wedi rhedeg ras o'r blaen? Oeddech chi'n hoffi'r profiad? Pam?<br>• Pwy sy'n gyntaf/ail/olaf? ayyb |






| | |
|---|---|
| Beth nesaf? | **Gweithgaredd Lles:**<br>Amser Cylch:<br>3 llun yn gosod safbwyntiau gwahanol - *gweler y ddogfen 'Trefnolion – lluniau'.*<br>1. Ennill ras<br>2. Colli ras<br>3. Cwympo yn ystod ras.<br>Trafod ennill a cholli a sut i ddelio gyda eu hemosiynau wrth brofi'r naill a'r llall. Pa wahanol ffyrdd sydd yna o ymateb i'r sefyllfaoedd uchod? |

